**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

20 Ionawr 2026

Annwyl Gyfeillion

Heddiw, rwy'n cyhoeddi manylion setliad refeniw a chyfalaf terfynol llywodraeth leol ar gyfer 2026-27 (y Setliad) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (yr awdurdodau) yng Nghymru drwy ddatganiad ysgrifenedig gan y Cabinet. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Yn 2026-27, bydd yr awdurdodau yn cael £6.56bn gan Lywodraeth Cymru o'r Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn golygu y bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2026-27 yn cynyddu 4.5% ar gyfartaledd, ar sail tebyg at ei debyg, o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol. Ni fydd unrhyw awdurdod yn cael cynnydd o lai na 4%.

Rwy'n falch bod cytundeb y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnwys £112.8m ychwanegol yn uwch na'r cyllid a nodwyd yn y Setliad Dros Dro, i gefnogi llywodraeth leol. Bydd y cyllid hwn yn helpu i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd y rheng flaen cymaint â phosibl, yn enwedig y sectorau allweddol hynny sy'n wynebu galwadau cynyddol fel Addysg a Gofal Cymdeithasol.

Rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd gan ein partneriaid sy'n awdurdodau lleol a chan ysgolion ynglŷn â'r pwysau cynyddol sydd arnynt, megis cymhlethdod cynyddol anghenion dysgwyr a rôl gynyddol yr ysgolion i gefnogi'r gymuned yn ehangach. Ni ddylid diystyru ychwaith y cynnydd sylweddol yn niffygion yr ysgolion. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi amcangyfrif cynnydd o £137m yn y cyllid gofynnol ar gyfer addysg erbyn 2026/27. Mae buddsoddi mewn addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth, ac rydym yn cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion ledled Cymru yn cael eu hariannu'n llawn i fynd i'r afael â'r pwysau hyn. O ystyried mai cyllid yr awdurdodau lleol yw dros 80% o gyllid addysg, rwy'n falch o nodi'r cynnydd o 4.5% yn y cyllid i lywodraeth leol drwy'r gyllideb hon. Mae'r Setliad hwn yn cynnig cyfle gwerthfawr i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

awdurdodau lleol ddyrannu adnoddau sylweddol i'w hysgolion, i ganolbwyntio ar bwysau allweddol anghenion dysgu ychwanegol, cludiant i'r ysgol, y gweithlu a llwyth gwaith.

Bydd y cyllid ychwanegol o £112m a ddarperir yn y Gyllideb Derfynol hefyd yn cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol hanfodol i blant ac oedolion. Rwy'n gwybod bod hwn yn faes lle y mae bodloni'r galw uniongyrchol, gan ymdrechu ar yr un pryd i atal anghenion yn y dyfodol, yn dod â heriau penodol. Yn fy llythyr a gyhoeddwyd ynghyd â'r Setliad Dros Dro, tynnais sylw at ein hymrwymiad ar y cyd i'r cyflog byw gwirioneddol mewn gofal cymdeithasol ac i'r cyllid sylfaenol parhaus o £91.5m yn y Setliad i adlewyrchu'r ymrwymiad hwn sy'n parhau. Bydd y cynnydd yn y cyllid ar gyfer y Setliad yn eich cefnogi i barhau i ddarparu'r cyflog byw gwirioneddol o £13.45 i weithwyr gofal cymdeithasol. O ystyried y pwysau ehangach ar ofal cymdeithasol a'r cyhoeddiad diweddar am y cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol yn 2026, rwyf i a'm cydweithwyr yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi'r gweithlu hanfodol hwn a byddaf yn archwilio opsiynau ar gyfer cyllid ychwanegol yn y flwyddyn.

Yn ogystal â'r Setliad craidd, rwy'n cyhoeddi gwybodaeth ddangosol am grantiau refeniw a chyfalaf penodol a gynlluniwyd ar gyfer 2026-27, sy'n dod i dros £1.3bn ar gyfer refeniw a thros £1.0bn ar gyfer cyfalaf.

Hoffwn roi ar gofnod unwaith yn rhagor fy nghydnabyddiaeth o'r gwaith caled a'r gwydnwch eithriadol a welwyd ar draws y sector ymhlith swyddogion ac aelodau etholedig dros sawl blwyddyn.

Gallaf gadarnhau nad wyf o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru bennu lefel fympwyol o gynnydd yn y dreth gyngor waeth beth fo'r amgylchiadau neu ddewisiadau lleol. Bydd angen i'ch awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr ystod lawn o ffynonellau cyllid sydd ar gael, yn ogystal â'r pwysau rydych yn eu hwynebu. Rwy'n eich annog i barhau i sicrhau bod effaith unrhyw gynnydd ar sefyllfa ariannol aelwydydd yn cael ei gwrthbwyso'n ofalus â cholli cymorth a gwasanaethau. Rwy'n gwybod y byddwch chi fel arweinwyr, aelodau etholedig a swyddogion, ym mhob cwr o Gymru, yn ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'ch cymunedau.

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar aelwydydd. Yn 2013-14, gwnaethom ddewis fel gwlad i ddiogelu aelwydydd sy'n agored i niwed, incwm isel drwy gynnal hawliau llawn i gymorth gyda biliau'r dreth gyngor, drwy ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol. Mae'r ymrwymiad hwn wedi cael ei gynnal bob blwyddyn ers rhagor na degawd. Mae ein cynllun cenedlaethol yn un sydd wedi'i deilwra ac yn golygu bod y cymorth hwn yn cael ei dargedu at y rhai y mae arnynt ei angen fwyaf. Heddiw, mae dros 256,000 o aelwydydd agored i niwed, incwm isel – tua un o bob pum aelwyd – wedi elwa ar ostyngiad yn eu treth gyngor. Yn unol â'n blaenoriaeth a'n cyfrifoldeb ar y cyd i gefnogi aelwydydd, byddwn yn parhau i gynnal y cyllid sylfaenol o £244m ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn y Setliad. Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau bod y system dreth gyngor yn deg ac yn parhau i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen, gan gynnwys wrth gymryd camau gorfodi mewn perthynas â dyled. Mae ein dull gweithredu yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion pobl agored i niwed yn ein cymunedau â phwysigrwydd diogelu gwerth y cyllid hwn i lywodraeth leol. Yn unol â hynny, mae'r cyllid yn y Setliad hwn yn cynnwys £375k i gefnogi awdurdodau lleol i weithredu arferion gorfodi tecach mewn perthynas â'r dreth gyngor, fel sy'n ofynnol yn unol â'r Rheoliadau a osodwyd ar 22 Hydref 2025.

Yn y Gyllideb Ddrafft, roeddwn yn falch o ddarparu cynnydd pellach o £4m mewn cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol yn gymorth ar gyfer y cynnydd chwyddiannol mewn costau.

Cyhoeddwyd manylion y trefniadau ar gyfer ardrethi annomestig yn 2026-27 ym mis Rhagfyr (https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymorth-ardrethi-annomestig-ar-gyfer-2026-27). Bydd yr ymarfer ailbrisio ardrethi annomestig nesaf yn cael effaith ar 1 Ebrill 2026. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad trosiannol i'r holl dalwyr ardrethi cymwys y mae eu hatebolrwydd yn cynyddu o ragor na £300 o ganlyniad i ymarfer ailbrisio 2026, ar gost o £116m dros ddwy flynedd. Mae cyllid ar gyfer rhyddhad trosiannol o £77m yn 2026-27 wedi'i ychwanegu at y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y Gyllideb Derfynol i wrthbwyso'r lleihad mewn incwm ardrethi annomestig a sicrhau nad yw'r cyllid cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei effeithio gan y rhyddhad ardrethi annomestig ychwanegol. Penderfynwyd hefyd ar y lluosyddion dros dro ar gyfer 2026-27. Mae'r lluosydd safonol wedi'i gyfrifo yn 0.502; bydd y lluosydd manwerthu newydd yn cael ei osod ar 0.350; a bydd y lluosydd uwch newydd yn cael ei osod ar 0.515. Mae effaith y newidiadau i'r lluosyddion yn niwtral o ran refeniw.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* a'r tablau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion y Setliad yn ôl awdurdod lleol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer pob awdurdod unigol, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2026-27.

Mae rhai mân newidiadau wedi'u gwneud rhwng y Setliad Drafft a'r Setliad Terfynol sydd wedi effeithio ychydig ar ddosbarthiad y cyllid ond nid ydynt yn effeithio ar y newidiadau canrannol cyffredinol. Mae cynnydd o £147k yn ardollau'r parciau cenedlaethol a newid bach iawn yn y sylfaen gosod trethi.

Rwy'n gwybod eich bod yn ymwybodol bod angen cydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol pan fo'r rhain yn gymwys. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn fod yn sail ar gyfer unrhyw benderfyniadau terfynol. Rhaid i'r awdurdodau hefyd fod wedi cymryd eu dyletswyddau i ystyriaeth o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2026-27.

Bydd y Llywodraeth yn mynd ati yn awr i osod Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) ar gyfer 2026-27 i'w drafod yn y Senedd ar 27 Ionawr 2026.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
Cabinet Secretary for Housing and Local Government